**Enw'r Ysgol:** **YSGOL PENTREUCHAF**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

Nodiadau:

- Mae safonau Addysg Grefyddol yn yr ysgol yn dda ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y pwnc drwy eu cyfnod yn yr ysgol. Mae ansawdd gwaith y disgyblion yn y llyfrau yn dda ar draws yr ysgol.
- Mae' rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol yn fedrus ac yn ymateb yn abl wrth eu trafod. Mae'r rhan fwyaf yn dwyn i gof arferion crefyddol o amryw o grefyddau yn llwyddiannus erbyn brig yr ysgol gan gymharu crefyddau, eu harferion a dysgeidiaeth a thrafod yr hyn sydd yn debyg.
- Mae disgyblion PYD yn gwneud cynnydd da ac nid oes bwlch rhwng cyrhaeddiad y mwyafrif a chyrhaeddiad eu cyfoedion. Mae disgyblion ADY yn cyrraedd eu potensial yn y pwnc yn gwneud cynnydd da o'u gwaelodlin. Mae gwaith disgyblion MAT o ansawdd da iawn ac maent yn trafod crefyddau yn aeddfed.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo eu medrau llythrennedd yn llwyddiannus i wersi Addysg Grefyddol, ac mae ansawdd y gwaith llythrennedd yn dda. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg ac fe roddir cyfleodd i ddatblygu TGCH o fewn y pwnc.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu sgiliau da sy'n rhoi mynediad iddynt i'r cwricwlwm cyfan. Mae tystiolaeth yr ysgol o arsylwi, teithiau dysgu a thrafod efo disgyblion yn dangos bod y rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'u sgiliau siarad a gwrando, rhifedd, meddwl a TGCh yn dda oddi fewn Addysg Grefyddol ac yn drawsgwricwlaidd

**Siarad a gwrando**

- Mae rhan fwyaf o ddisgyblion CS yn cyrraedd y safonau disgwyliedig neu uwch mewn sgiliau cyfathrebu ac yn medru eu defnyddio'n fedrus. *e.e gwrando'n astud, ymateb yn bwrpasol i holi'r staff dysgu a cyfranogi tuag at weithgareddau chwarae rôl.*
- Erbyn diwedd y CS mae'r haen uwch yn medru cynnig eglurhâd manwl, defnyddio ac amrywio ystod gynyddol o eirfa addas wrth chwarae ac mewn gweithgareddau strwythredig ac yn medru siarad yn eglur gydag ystod o gynulleidfaoedd. Gwelwyd enghreifftiau da o hyn yng ngwaith 'Pie Corbett' a chyflwyniadau byr gan ddefnyddio'r app 'Puppet Pals' ym mlwyddyn 2 a sesiynau partneriad parablu ym mlwyddyn Derbyn. Hefyd, tystiolaeth da o sgwrsio torfol ar y mat gan y dosbarth Meithrin
- Mae llawer o ddisgyblion CA2 hefyd yn cyrraedd safonau cyfathrebu disgwyliedig neu uwch ac wedi dangos eu bod yn medru gwrando'n astud ar gyflwyniadau, yn ymateb yn dda drwy wneud sylw, holi neu fynegi barn yn y ddwy iaith. Er yn llai hyderus ar gychwyn CA2, mae disgyblion yn tyfu mewn hyder ac yn datblygu'n gyflym yn eu gallu i drin a thrafod yn eglur yn y Saesneg, yn cynnwys taflu llais yn uchel a defnyddio ystod o eirfa yn effeithiol.
- Erbyn diwedd CA2 mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio mynegiant yn effeithiol i gadw diddordeb gwrandawyr yn y ddwy iaith.

**Darllen**

- Yn y CS mae medrau darllen disgyblion yn datblygu o oedran cynnar gyda rhan fwyaf yn ymateb yn

llwyddiannus i strategaethau darllen ac yn arddangos ac mynegi hoffter o lyfrau.

- Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaeth ffoneg o ganlyniad i ddefnydd dyddiol 'Tric a Chlic'. Mae'r adnodd wedi cael effaith cadarnhaol ar sgiliau darllen cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion.
- Erbyn diwedd CS mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau darllen yn fwyfwy annibynnol ar gyfer ystod ehangach o destunau a'r haen uwch yn medru dadelfennu testun gyda geirfa anghyfarwydd yn fedrus.

**Ysgrifennu**

- Mae rhan fwyaf  o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n annibynnol at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan ddefnyddio brawddegau llawn, atalnodi'n gywir a defnyddio ystod gynyddol o eirfa gyfoethog a chystrawen dda. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd effeithiol maent yn cynllunio, ysgrifennu ac yn gwella straeon dychmygol erbyn diwedd CS.
- Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn  llwyddo i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig ymhellach i safon dda  drwy ddilyn cynllun Geirio Gwych drwy'r ysgol gyfan.
- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio sgaffaldiau gwahaniaethol yn llwyddiannus  i gynllunio eu gwaith ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn gwneud gwelliannau priodol wrth gyfeirio yn ôl at y meini prawf wrth ailddrafftio.
- Mae gwaith y rhan fwyaf yn dangos ymwybyddiaeth dda o ffurfiau amrywiol o ysgrifennu gan ddefnyddio ystod o ffynonellau addas.
- Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu testunau diddorol gan ddefnyddio ystod eang o eirfa, fel berfau, idiomau a chymariaethau, yn effeithiol i gyfoethogi gwaith.
- Mae'r rhan fwyaf yn medru cymhwyso'r sgiliau ysgrifennu hyn yn llwyddiannus yn drawsgwricwlaidd e.e.  Ysgrifennu llythyr i fecws Glanrhyd; adroddiad papur newydd yn adrodd hanes y dyn cyntaf ar y lleuad.

**Rhifedd**

- Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gymhwyso'r medrau rhifedd wrth symud drwy'r ysgol.
- Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn adio a thynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau.
- Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o werth gwahanol ddarnau arian wrth eu defnyddio'n gywir hyd at bunt.
- Maent yn mesur yn fanwl wrth ddefnyddio mesuriadau safonol ac ansafonol i ddatrys problemau syml er enghraifft mesur cynhwysion ar gyfer creu menyn.
- Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan â 10 a 100 ac o ddegolion wrth adio a thynnu'n gywir hyd at ddau le degol.
- Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod briodol o fedrau mesur amser yn effeithiol.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf yn datblygu strategaethau rhifedd perthnasol da ar gyfer datrys problemau ac yn cyflwyno eu canlyniadau mewn modd systematig.
- Mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gymhwyso'r medrau rhifedd maent wedi'i ddatblygu mewn problemau estynedig neu ar draws y Cwricwlwm yn dda. Ymhlith yr enghreifftiau da welwyd wrth graffu ar lyfrau mae disgyblion yn cymhwyso dealltwriaeth o arian mewn prosiectau mentergarwch a chyflwyno data a chreu fformiwla mewn taenlenni ar 'Google Drives' y disgyblion
- Fodd bynnag, mae lle I gymhwyso rhifedd ymhellach yn mewn ymchwiliadau Gwyddoniaeth..
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu yn effeithiol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu adalw ffeithiau rhif i gof yn gyflym, yn deall gwerth lle yn dda ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfrifo yn y pen yn llwyddiannus.

**Medrau TGCh:**

DRAFT

- Mae llawer o ddisgyblion CS ac CA2 yn medru defnyddio TGCh yn hyderus ac yn effeithiol iawn wrth drefnu, cyflwyno, cyfathrebu ac ymchwilio.
- Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn iawn o ddiogelwch ar y We ac agweddau ehangach o 'Ddinasyddiaeth Digidol' yn dilyn gweithdai arbenigol gan yr NSPCC i ddisgyblion a rhieni.
- Mae tystiolaeth da o sgiliau data a modelu'n cael eu datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol gydag enghreifftiau o safon uchel (Bl2) yn llunio cronfa ddata gan ddefnyddio Purple Mash a defnydd da o'r crwban ac yng nghyfnod allweddol 2 gwelwyd enghraifft effeithiol o waith codio gan ddefnyddio'r rhaglen Scratch a chynhyrchu taenlenni pwrpasol.
- Gwelwyd sgil cynhyrchu yn cael ei ddatblygu'n effeithiol iawn yn y CS gan wneud defnydd gwych o Puppet Pals er mwyn atgyfnerthu partrymau llafar . Yn ogystal cafwyd enghraifft dda o'r llinyn creu gyda'r disgyblion yn cynllunio a chreu ffilm ac animeiddiad gan ddefnyddio sawl app.
- Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio codau 'QR' yn dda ar gyfer cyfathrebu a chofnodi eu gwaith yn annibynnol drwy gynllun peilot meddalwedd 'Seesaw'.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion erbyn diwedd CA2 yn gallu cynhyrchu gwaith ar y cyd yn dda gan ddefnyddio apiau Google (*Docs; Slides* ayyb) wrth ddefnyddio prosesydd geiriau, cyhoeddi pen bwrdd, PowerPoint (gan gynnwys gwaith fideo ac animeiddio), e-bost ac ymchwilio ar y we.
- Mae sgiliau cymhwysedd digidol rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda, ac maent yn medru manteisio arnynt er mwyn codi safonau a gwella eu dysgu ar draws y Cwricwlwm.

**Medrau meddwl a chreadigol**

- Mae rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran yn medru myfyrio'n effeithiol ar safon eu dysgu ac yn medru datgan barn.
- Mae mwyafrif o ddisgyblion CA2 yn medru cynnig rhesymau da dros eu barn, cynnig argymhellion gwella perthnasol a gweithredu arnynt i godi safon eu gwaith.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion CS yn medru gweithredu fel partneriaid trafod ('Partneriaid Parablu') effeithiol iawn ac hynny hefyd yn datblygu'n dda yn CA2.
- Yn ystod teithiau dysgu gwelwyd enghreifftiau arbennig o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn gofyn cwestiynau perthnasol yn disgrifio ac yn dangos ystyriaeth aeddfed i'r hyn ddysgwyd ganddynt eu hunain ac eraill.
- Yn yr un modd, gwelwyd fod rhan fwyaf o disgyblion CA2 yn cydweithio'n effeithiol er mwyn hunan asesu, asesu cyfoedion a chyfrannu at drafodaethau cychwynnol uned o waith.

**<u>Yr Iaith Gymraeg</u>**

| **Iaith yr Aelwyd**<br><br>**2018 - 2019** | **M / D / 1** | **1 / 2** | **3 / 4** | **5 / 6** |
|---|---|---|---|---|
| % Cymraeg | 58% | 71% | 74% | 72% |
| % Saesneg | 42% | 29% | 26% | 28% |

- Mae safon y Gymraeg yn yr ysgol o gymharu ag ysgolion a chefndir ieithyddol tebyg yn dda.
- Mae data cymharol yn y Gymraeg ac safonau wrth graffu ar lyfrau, yn gadarn dda ar draws yr ystod oedranau.
- Derbyniodd yr ysgol achrediad 'Y Faner Aur' – Siarter Iaith Gwynedd' am yr ail flwyddyn yn olynnol yn

2018 yn rhannol fel cydnabyddiaeth o safonau'r Gymraeg ac yn parhau i gynnal y safonnau uchel yma drwy adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn barhaus.

- Mae prosesau craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi, holi grwpiau o ddysgwyr ac tracio data blynyddol oll yn cadarnhau bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn y Gymraeg yn ystod blwyddyn addysgol.
- Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y Gymraeg o'r CS i CA2.
- Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio Cymraeg o safon uchel o amgylch yr ysgol.
- Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn dewis siarad yn y Gymraeg ar yr iard a thu fewn i'r ysgol.
- Mae rhan fwyaf o ddisgyblion o flwyddyn 2 hyd at flwyddyn yn medru defnyddio Iiaith Gymraeg safonol, ffurfiol yn dda wrth drin a thrafod gydag oedolion ac yn medru addasu mewn cyd-destunau cymdeithasol gyda'i cyfoedion.
- Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu esbonio manteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog yn effeithiol

***Materion i'w hystyried/materion sydd angen sylw yn y CDY:***

- **Mae herio disgyblion, yn ogystal â chynllunio cyfleoedd cyfoethog i'r plant gymhwyso eu sgiliau rhif yn drawsgwricwlaidd gan gynnwys Addysg Grefyddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth CDY 2019/2020.**

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: Dda**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cyngor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

Nodiadau:

- Mae safonau lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol y rhan fwyaf o ddisgyblion CS a CA2 yn dda.
- Mae bron bob un disgybl yn nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol a'u bod yn gwybod pwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio ac yn deall trefniadau'r ysgol i ymdrin â bwlio a chamymddwyn.
- Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda gan ddangos parch at ei gilydd a'u hunain yn yr ysgol. Eithriadau bychain yw'r disgyblion hynny sy'n arddangos anawsterau ymddygiadol yn hanesyddol yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae % uwch yn amlygu yn 2018/19 oherwydd rhesymau cymdeithasol ac emosiynol. Mae gan yr ysgol adnabyddiaeth dda o'r disgyblion hyn ac yn ymateb yn dda i'r problemau drwy gynlluniau hir dymor.
- Mae ymddygiad a'r ffordd mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhyngweithio gyda'i gilydd yn dda. Mae bron bob un o'r disgybion yn ymddwyn yn gwrtais ac yn barchus tuag at ei gilydd yn y neuadd ginio, yr iard ac yn y dosbarthiadau. Mae ethos ofalgar a theuluol yn perthyn i'r ysgol yn hanesyddol.
- Mae achosion bwlio yn yr ysgol yn brin ar y cyfan. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n nodi eu bod wedi dioddef unrhyw fwlio yn ystod y 3 mlynedd ddiwethaf.
- Drwy ystod o weithgareddau megis gwersi addysg gorfforol, gwyddoniaeth ac amser cylch, mae gan bron bob un ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach

ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u datblygiad.

- Mae gan bron bob un o ddisgyblion Bl.2 i fyny ymwybyddiaeth dda fod bwyta, yfed iach a ffitrwydd yn cyfrannu at gorff a meddwl iach.
- Mae ymatebion plant a'r ymddygiad a welir yn yr ysgol yn cadarnhau hyn. e*.e. peryglon smocio, cyffuriau, siarad a dieithriaid, diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch ar y We, parchu cyrff ei gilydd.*
- Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda iawn i weithdai Diogelwch y We ac maent yn medru trin a thrafod dulliau cadw'n ddiogel yn ddigidol.
- Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfeirio at ddysgu blaenorol ac at brofiadau personol yn dda iawn mewn gwersi cynhaliol gan asiantaethau ac arbenigwyr *e.e. NSPCC, PC Dewi Owen.*
- Mae mwyafrif o'r disgyblion yn manteisio ar y rhaglen eang o weithgareddau ar ôl ysgol a chlybiau sydd ar gael iddynt. Mae'r gweithgareddau ychwanegol yma yn cael dylanwad gadarnhaol ar ffitrwydd rhan fwyaf o'r disgyblion a'u dealltwriaeth o'r angen i ymarfer y corff. Mae'r rhaglen allgyrsiol flynyddol yn cynnig cyfleoedd mewn ystod o sgiliau o'r celfeddydol, ymarferol, digidol i'r corfforol. *e.e clybiau chwaraeon amrywiol, clwb coginio, clwb adeiladu gwib gart, clwb canu, clwb codio.* Mae trefniadau hyn yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu ffitrwydd yr holl disgyblion.
- Mae bron bob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog tuag at ymwelwyr a thuag at ei gilydd, gan wrando ar ei gilydd ac ymateb yn gwrtais.
- Mae sylwadau ac argraffiadau ymwelwyr o agwedd ac ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol iawn ac hynny'n cyfrannu'n helaeth tuag at ethos yr ysgol ac yn hyrwyddo'r disgyblion i barchu ei hunain a'i gilydd.
- Mae bron bob un o'r disgyblion yn rhyngweithio'n gyfeillgar a'i gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ac eithriadau prin yn unig fyddai unrhyw ddigwyddiad i'r gwrthwyneb.
- Mae bron bob un o'r disgyblion yn barod i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol gan ymgymryd â rôl arweiniol megis Cyngor Ysgol, Cyngor Eco.
- Mae'r parodrwydd i gyfranogi yn cyfrannu tuag at yr ymdeimlad o berchnogaeth mae'r disgyblion yn ei deimlo tuag at yr ysgol, ac hynny wedi'i adlewyrchu orau yn effaith llais y Cyngor Ysgol a Chyngor Eco. *Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae aelodau'r Cyngor Ysgol wedi cynllunio a chodi arian ar gyfer elesynnau; tywys llywodraethwyr fel rhan o archwiliad diogelu safle; a'r gwaith rhagorol mae'r Cyngor Eco wedi'i gyflawni wrth ymgysylltu â'r gymuned yn sgil prosiect trawsgwricwlaidd 'Eco-Brics'.*
- Mae'r Cyngor Ysgol a llais y dysgwyr yn cael effaith buddiol ar fywyd yr ysgol.
- Mae'r Cyngor Ysgol yn ymgorffori barnau bron pob disgybl drwy drefn Cyngor Dosbarth yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les a bodlondeb bron pob disgybl ar draws yr ysgol.
- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhyngweithio'n dda gyda plant ac oedolion newydd.
- Mae gofal y disgyblion hŷn am y rhai ieuengaf a'r ffordd maent yn croesawu disgyblion newydd yn effeithiol.
- Mae bron pob un dosbarth yn rhyngweithio'n arbennig o dda gydag oedolion yn cynnwys yr henoed a gwelwyd hynny orau yn y cydweithio fel rhan o waith yr ysgol fel 'Ysgol Ffrind Demensia' a'r cydweithio gyda Uned ddemensia Hafan Hedd.
- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall cysyniadau moesol megis tegwch, cydraddoldeb, goddefgarwch, cynaliadwyedd a hawliau plant. Amlygir hyn yn ymddygiad y disgyblion wrth ymdrin â'i gilydd, codi arian tuag at elusennau, y gallu i ddangos empathi, arbed ynni ac ailgylchu yn yr ysgol.
- Mae bron bob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol eraill.
- Mae'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda yn eu gwersi ABACh o debygrwydd a gwahaniaeth rhwng unigolion, teuluoedd a chymunedau.
- Dengys holiaduron disgyblion fod rhan fwyaf yn parchu ei gilydd.

**<u>Materion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf</u>**

Parhau i ddatblygu adnoddau trawsgwricwlaidd i gyd fynd a'r Gwersi Addysg Grefyddol

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Dda**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

Nodiadau:

- Mae cynllunio ar gyfer Addysg Grefyddol yn fwriadus ac yn ymateb o ofynion y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol. Mae sgiliau y Cyfnod Sylfaen wedi ei mapio Defnyddir y cynlluniau tymor hir yn fwriadus er mwyn cynllunio cyfres o wersi.
- Addysgir Addysg Grefyddol yn dymhorol ym mhob dosbarth.
- Mae llais y disgyblion yn gryf yn yr ysgol ac yn dylanwadu yn gryf ar y cynllunio. O ganlyniad mae tasgau a gweithgareddau yn ennyn diddordeb y disgyblion yn dda.
- Mae y mwyafrif o wersi o ansawdd da ac yn llwyddo i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal a'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd yn llwyddiannus.
- Mae ansawdd y cynllunio yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r cynllunio yn adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn sicrhau cysondeb a dilyniant o flwyddyn i flwyddyn.
- Mae AaGD yn dda yn yr ysgol ac fe sicrheir bod nod y wers yn cael ei rannu gyda disgyblion, ynghyd a'r MPLl. Mae hyn yn sicrhau bod y disgwyliadau uchel yn glir.
- Rhoddir adborth adeiladol gan athrawon, ac fe anogir disgyblion i wella eu gwaith yn rheolaidd. Defnyddir partneriaid trafod yn rheolaidd ac mae disgyblion yn hunan-asesu ac yn asesu cyfoedion yn aml.
- Asesir Addysg Grefyddol yn flynyddol yn ôl y disgrifiadau Deilliannau a Lefelau o'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol. Adroddir ar gynnydd mewn Addysg Grefyddol i rieni yn flynyddol. Dengys yr asesiadau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da a chadarn yn y pwnc
- Mae sesiynau i godi ymwybyddiaeth i'r 4 diben wedi sicrhau bod gan yr athrawon dealltwriaeth gynyddol o'r Cwricwlwm newydd. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu'r egwyddorion ac mae athrawon CA2 wedi dechrau ymateb iddynt.
- Mae athrawon yn trefnu ymweliadau addysgol i'r Eglwys leol, Coleg y Bala er mwyn i'r disgyblion ymgyfarwyddo gyda addoldai a defodau a chynnal gweithdai yn ymwneud â dathliadau crefyddol arwyddocaol.
- Trefnir gweithgareddau yn yr ardaloedd yn y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu medrau Addysg Grefyddol.
- Mae nifer o ymwelwyr yn flynyddol yn yr ysgol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion o'r Beibl a Cristnogaeth e.e. Gwasanaethau Agor y Llyfr bob pythefnos i'r ysgol gyfan.

**<u>Materion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf:</u>**

- Parhau i fireinio y cynllunio er mwyn ymateb i ofynion y Cwricwlwm Newydd
- Datblygu gweithgareddau Creadigol

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Da**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**
***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion***

***crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.
- I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)

Nodiadau:

- Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn llwyddiannus, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo meddwl iach yn dda. Ers cyflwyno ioga/meddwlgarwch yn 2018 mae canfyddiadau cynnar yn awgrymu bod ymddygiad/medrau cymdeithasol, anawsterau pryder grwp targed o ddisgyblion wedi gwella.
- Mae disgyblion Meithrin/Derbyn yn ymateb yn dda iawn I'r gwersi yn enwedig un plentyn ag anawsterau ymddygiad cymdeithasol. Mae'n llwyddo i dawelu meddyliau'r disgyblion yn effeithiol.
- Mae'n gynnar I weld effaith cynllun 'Mindfulness' ar hyn o bryd, ond ymddengys fod un disgybl gydag anawsterau 'pryder' ('anxiety') yn ymateb yn gadarnhaol iawn ac yn gwenud cynnydd da.
- Mae'r ysgol yn ysgol 'Ffrind Dementia', ac o'r herwydd, mae gan disgyblion CA2 ddealltwriaeth dda iawn o'r cyflwr. Mae'r disgyblion wedi llwyddo i greu cyswllt agos gyda Ward Hafan Dementia yn Ysbyty Bryn Beryl gan gynnwys ymweliadau cyson a chreu prosiect gyda cerddorion, artistiaid a Bardd Plant Cymruyn ystod 2016-2017. Cafodd ei lansio yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017. Mae'r gwaith yma yn agwedd ragorol a gafodd sylw y wasg genedlaethol wrth I'r disgyblion greu ffilm fer gan godi ymwybyddiaeth plant a phobl o'r cyflwr. Ystyrir yn arloesol oherwydd I'r gwaith lwyddo i newid meddylfryd y disgyblion a gwneud iddynt ddwyn perswad ac I helpu eraill am y cyflwr – meddylfryd cadarnhaol gydol oes.
- Mae'r sylw a roddir I astudio'r ardal leol, hanes, llenyddiaeth yn nodwedd dda yn yr ysgol. Bydd dathliadau megis Dydd Gwyl Dewi pan mae'r ysgol yn gwahodd henoed yr ardal I'r ysgol I gyd-ddathlu yn cael effaith gadarnhaol ar werthfawrogiad y plant o'r gymuned leol.
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol yn dda o fewn y cwricwlwm a phrofiadau dysgu. Mae'r ysgol wedi creu cyswllt gwerthfawr gyda cymdeithas eglwysig yr ardal sy'n cyflwyno storiau o'r Beibl I'r disgyblion bob yn ail wythnos fel rhan o'r rhaglen 'Agor y Llyfr'. Mae'r disgyblion yn gwrando'n astud ar y storiau ac yn barod i gyfrannau at y perfformiadau. Llwydda'r ysgol i sicrhau naws ysbrydol dymunol yn y sesiynau addoli ar y cyd ac mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol. Trwy astudio themau megis 'Heddychwyr' yn eu gwersi addysg grefyddol, ABCh mae'r disgyblion yn meithrin dealltwriaeth dda o agweddau moesol.
- Mae disgyblion, staff a rhieni'r ysgol yn weithgar iawn yng ngweithgareddau'r Urdd. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa o berfformio a gweithgareddau celf amrywiol. Mae'r ysgol yn profi llwyddiannau mewn eisteddfodau lleol, sirol a chenedlaethol yn flynyddol. Mae cynnig ystod o brofiadau rhagorol i'r disgyblion yn gryfder yn yr ysgol.
- Mae pob disgybl yn cael y cyfleoedd cyson i gymryd rhan mewn perfformiadau i feithrin eu hunan hyder, eu gallu i fynegi eu hunain a'u gallu i weithio fel tîm *e.e. gwasanaethau Diolchgarwch; Gŵyl Ddewi; Nadolig a diwedd y flwyddyn academaidd. Mae'r* ysgol wedi meithrin disgyblion hyderus a pherfformwyr da ar hyd y blynyddoedd.
- Mae'r gofal bugeiliol yn nodwedd i ymfalchïo ynddi. Mae gwybodaeth dda gan y staff am amddifadedd cymdeithasol a phroblemau teuluol rhai unigolion. Ystyrir yr ysgol yn noddfa i rai plant ac mae cynlluniau a rhaglenni da yn eu lle er mwyn datblygu eu sgiliau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad i'w hysgol a'r gymuned ehangach. Mae canllawiau clir ar gael ynglŷn â delio â sefyllfaoedd sy'n codi, ynghyd â gadael i holl randdeiliaid yr ysgol wybod beth yw ein hethos a'n meddylfryd. Cydweithir yn dda efo'r Swyddog Lles a'r Nyrs Ysgolion i ddatrys rhai achosion o bryder.



DRAFT

<table>
<tr><td colspan="5">

- Caiff amser cylch ei ddefnyddio'n effeithiol iawn ar gyfer ymateb i bryderon disgyblion a delio gydag achosion sy'n codi mewn modd agored a sensitif. Mae'r rhaglen 'Siop Siarad' ('Talkabout') a weithredir gan yr ysgol ar gyfer cefnogi disgyblion unigol yn nodwedd dda o'r ddarpariaeth iechyd a lles. Bu eisoes o gymorth sylweddol i grŵp o ddisgyblion gan gynnwys PMG, i ymdopi'n well â theimladau o ofn, pryder ac iselder trwy adeiladu gwytnwch a hunan-barch a dysgu sgiliau gwybyddol ac emosiynol mewn ffordd syml sydd wedi'u strwythuro'n dda.
- Ar gais yr ysgol, cafwyd sawl ymweliad gan *Childline* a chynrychiolydd o sefydliad NYAS (Sefydliad Lles ar gyfer plant a phobl ifanc) i annog trafodaeth BARN â disgyblion Bl. 5 a 6 am hawliau a lles plant, ac i gynnal sesiynau cwnsela unigol wythnosol ac yn ôl y galw. Ceir criw o blant 'Ffrindiau Ffeind' yn goruchwylio'r buarth a chynnig cymorth i unigolion bregus.
- Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais gwerthfawr ar fwyta'n iach drwy fwydlen yr ysgol ac yn gweithredu 'Cynllun Ysgol Iach' yn llwyddiannus er mwyn datblygu iechyd a ffitrwydd ein disgyblion.
- Mae'r ysgol yn dilyn y cynllun cytunedig â'r Awdurdod ar gyfer addysgu am berthynas ac iechyd rhywiol yn dda.
- Mae'r ddarpariaeth ABaCh, yn ogystal ag arferion beunyddiol, yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch bron pob disgybl yn dda iawn. Adnabyddir cyfleoedd da o fewn y cwricwlwm ac o fewn trefniadau'r ysgol i herio stereoteipiau a datblygir y syniad o barch a chyfrifoldeb yn dda. Dathlwn disgwyddiadau arwyddocaol megis 'Diwrnod Syndrom Downs' yn flynyddol a chynnal gwasanaeth arbennig er mwyn hyrwyddo ein polisi a'n hegwyddorion o gynhwysiad. O ganlyniad, mae gan y ddisgyblion empathi naturiol at gyfle cyfartal a phrin yw achosion o fwlio, hiliaeth a gwahaniaethu.

**<u>Materion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf:</u>**

- Parhau i gynllunio addoli ar y cyd ar gyfer yr ysgol gyfan

</td></tr>
<tr><td>Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?</td><td>Ydy</td><td>x</td><td>Nac ydy</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: Dda</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**
***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?***

</td></tr>
<tr><td>

- Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.
- I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG

</td></tr>
<tr><td>

- Nodiadau:
- Mae'r arweinyddiaeth gan y cydlynydd yn dda ac mae'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer y pwnc. Mae'n meddu ar y gwybodaeth a'r dealltwriaeth i arwain yn effeithiol.
- Mae adnoddau pwrpasol megis ardaloedd, arteffactau a llyfrau crefyddol yn yr ysgol. Mae digon o adnoddau o ansawdd da yn yr ysgol.
- Mae polisiau yn eu lle ac wedi eu hadolygu'n unol a'r amserlen. Caiff gwybodaeth am ethos yr ysgol a'i natur Cristnogol ei rannu gyda rhieni yn y llawlyfr. Mae gwybodaeth am yr hawl i dynnu disgyblion o wersi Addysg Grefyddol yn y llawlyfr.
- Nid oes disgyblion wedi dewis peidio cymryd rhan yn y cyd addoli.
- Nid oes disgyblion wedi eu tynnu o wersi addysg grefyddol.
- Mae'r UDRh yn craffu ar lyfrau yn dymhorol ac yn monitro y ddarpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol, yn llunio adroddiadau ac yn adrodd i'r Corff Llywodraethwyr

**<u>Materion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf</u>**

</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Datblygu rol y disyblion ymhellach<br>Parhau i ddatblygu cysylltiadau gyda ysgolion eraill. |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: Dda** |

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| • Ymgyfarwyddo gyda'r cwricwlwm newydd gan ddechrau mireinio cynlluniau | Dilyn Camau'r CDY | | |
| • Parhau i ddatblygu adnoddau trawsgwricwlaidd i gyd fynd a'r Gwersi Addysg Grefyddol | Dilyn Camau'r CDY | | |
| • Parhau i fireinio y cynllunio er mwyn ymateb i ofynion y Cwricwlwm Newydd<br>• Datblygu gweithgareddau Creadigol | Dilyn Camau'r CDY | | |
| • Parhau i gynllunio addoli ar y cyd ar gyfer yr ysgol gyfan | Dilyn Camau'r CDY | | |
| • Datblygu rol y disyblion ymhellach<br>Parhau i ddatblygu cysylltiadau gyda ysgolion eraill. | Dilyn Camau'r CDY | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Cryno! Tua 50 o eiriau.

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol. Maent yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae cyfnodau cyd-addoli gwerthfawr yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ystyried safbwyntiau eraill, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar sut y gellir edrych ar ôl ein byd. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu nifer o strategaethau'n ddiweddar i ymateb i anghenion emosiynol

DRAFT

ychydig o ddisgyblion. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r defnydd a wneir o ioga a Meddylfryd o Dwf i ddatblygu lles emosiynol ac agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu.

**Enw'r pennaeth  Gethin Elis Thomas**

**Llofnod y pennaeth** 
**Dyddiad: 27/09/19**

DRAFFT